------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 206(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Senedd yn 25

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Blaenoriaethau ar gyfer newid hinsawdd a materion gwledig

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Gweithio gyda llywodraeth leol i ddarparu mwy o dai fforddiadwy

(45 munud)

## 6 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

(5 munud)

**NDM8565** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2024.

## 7 Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

(15 munud)

**NDM8564** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2024.

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NNDM8574** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i NNDM8572 a NNDM8573 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 7 Mai 2024.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(30 munud)

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 1

**NNDM8572** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno bod darpariaethau yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sef, Cymal 16 ynghylch Cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant pan fo un rhiant yn lladd y llall; ystyried Cymal 17 ynghylch marwolaeth  yn deillio o gam-drin domestig a Rhan 3 a'r Atodlen gysylltiedig sy'n ymwneud ag iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn cael eu hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2024 a 29 Ebrill 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Dioddefwyr a Charcharorion (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 2

**NNDM8573** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sef, Cymalau 1 i 4, 11, 26 a 27, Dioddefwyr Ymddygiad Troseddol: Cod dioddefwyr; Cymal 15, Canllawiau ar rolau cymorth dioddefwyr penodedig; Cymalau 28 – 33 a Chymalau 35 – 39 Dioddefwyr Digwyddiadau Mawr; i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2023 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2024 a 29 Ebrill 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Dioddefwyr a Charcharorion (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mai 2024

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 01/05/2024 i'w hateb ar 07/05/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ61074 **(e)**

Pa gymorth sydd ar gael i famau newydd a menywod beichiog yng Nghymru?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

2 OQ61053 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am brosiect pont Llannerch rhwng Trefnant a Thremeirchion?

**Joel James** *Canol De Cymru*

3 OQ61073 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i ddiogelu gwleidyddion yng Nghymru rhag ymosodiadau corfforol a llafar posibl?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ61066 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni gwyrdd?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ61062 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl Deddf Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) 2024 ar geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru?

**Hefin David** *Caerffili*

6 OQ61047 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o adfywio canol trefi yn etholaeth Caerffili?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ61077 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad Trafnidiaeth Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

8

## OQ61045 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag Avanti West Coast ynghylch eu perfformiad yn y gogledd?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

9

## OQ61078 **(e)**

Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â pharcio ar balmentydd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

10

## OQ61076 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn y gogledd?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11

## OQ61071 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol yng Ngogledd Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

12

## OQ61075 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am gymorth i bobl ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr y mae cynllun Arbed wedi effeithio'n negyddol arnynt?